

Elin Jones AC  
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

13 Ionawr 2020

Annwyl Lywydd

### **Tynnu offerynnau statudol yn ôl**

Ar 6 Ionawr 2020, bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystyried y llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2019 a anfonodd Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, atoch chi yn ymwneud â Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2019 (y Gorchymyn).

Cymeradwywyd y Gorchymyn gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Tachwedd 2019. Mae'r Gweinidog wedi nodi yn ei llythyr fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu tynnu'r Gorchymyn yn ôl oherwydd iddi ddod i'r amlwg ar ôl y Cyfarfod Llawn bod gwall yn y Gorchymyn a oedd yn golygu nad oedd yn cynnwys darpariaeth iddo ddod i rym.

Rydym yn deall safbwynt Llywodraeth Cymru y byddai'n afresymegol i'r Gorchymyn gael ei wneud yn gyfraith pan nad yw'n bosibl iddo ddod i rym.

Ar ôl ymgynghori â'r rheol sefydlog berthnasol – Rheol Sefydlog 27.11 – rydym o'r farn nad yw'r geiriad mor eglur ag y gallai fod. Er ein bod yn credu ei bod yn rhesymol i'n Rheolau Sefydlog alluogi Llywodraeth Cymru i dynnu rhai offerynnau statudol yn ôl, nid ydym yn credu ei bod yn briodol caniatáu hynny fel mater o drefn os yw offeryn statudol wedi cael cymeradwyaeth y Cynulliad.

Yn ein barn ni, dim ond mewn rhai amgylchiadau y dylai Llywodraeth Cymru geisio tynnu offeryn statudol yn ôl, ac ni ddylai'r amgylchiadau hynny gynnwys achosion lle bo offeryn wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad.

Rydym yn deall bod swyddogion Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad wedi bod yn trafod y Gorchymyn hwn dros gyfnod toriad y Nadolig. Rwyf hefyd yn gwybod nad yw'r Gweinidog, ar adeg ysgrifennu hwn, wedi ceisio tynnu'r Gorchymyn yn ôl na gosod gorchymyn newydd.



Pa bynnag ddull y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu arno, credwn, yn ddarostyngedig i'ch barn ar ddehongli Rheol Sefydlog 27.11, y gallai fod yn briodol adolygu geiriad a chymhwysiad y Rheol Sefydlog benodol hon.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

**Mick Antoniw AC**

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

